LGBC4M/2001

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 2.30 pm DDYDD GWENER 20fed EBRILL 2001 YN NHY CARADOG, 1-6 ST.ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 22ain Mawrth 2001.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion yn codi.

2.1 Nododd Mr Halsall yr anfonwyd llythyr i Adran LGM2 yn eu hysbysu y byddai argyfwng presennol clwy'r traed a'r genau yn effeithio ar ymweliad safle arfaethedig â Llangollen i edrych ar ffiniau eraill posibl ac y gallai hyn gael goblygiadau ar gyfer terfyn amser yr arolwg. Byddai hyn hefyd yn effeithio ar ymweliad safle â Chlunderwen i edrych ar ffin arfaethedig a amlinellwyd mewn cynrychioliad ddiweddar. Dywedodd Mr Lewis wrth y cyfarfod y byddai'n ceisio cael arweiniad pellach ar y mater hwn yn y cyfarfod cyswllt chwarterol nesaf gydag Adran LGM2 a fyddai'n cael ei gynnal ar 23ain Ebrill 2001.

2.2 Nododd Mr Halsall yn dilyn yr ymarfer tendro diweddar ar gyfer gwasanaethau cyfrifo, penderfyniad penodi Adrian James & Co, fel Cyfrifwyr y Comisiwn ar gyfer y cyfnod 2001 i 2004.

2.3 Nododd Mr Lewis fod trosglwyddiad Mr Halsall i'r Cynulliad Cenedlaethol o Dy'r Cwmnïau bellach wedi ei gadarnhau ac y dylai fod wedi ei gwblhau erbyn 1af Mai 2001.

2.4 Nododd y Cadeirydd mai 3 neu 4 fyddai nifer bras y staff ar gyfer y Comisiwn dros Drefniadau Etholiadol yng Nghymru. Dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i'r Comisiwn pan fyddai nifer y staff wedi'i gadarnhau.

2.5 Nododd Mr Lewis fod Adran LGM2 wedi rhoi gwybod iddo y byddai'r arolygon etholiadau a ffiniau nas cynhaliwyd eto yn cael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfarfod llawn ym mis Tachwedd.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen – adroddiad ar gynnydd

i) crynodeb o gynrychioliadau pellach.

3.1 Nododd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd.

ii) asesu cynigion

3.2 Nododd y Cadeirydd, mewn ymateb i'r adroddiad IPF, fod Cyngor Sir Dinbych yn bwriadu comisiynu eu hastudiaeth eu hunain o ddichonoldeb ariannol Sir Ddinbych heb Llangollen. Dywedodd iddynt amcangyfrif y byddai'n cymryd tan ddiwedd mis Mai i gwblhau'r arolwg a'u bod wedi gwneud cais i'r Comisiwn ganiatáu'r amser hwn iddynt. Nodwyd y byddai angen rhoi gwybod i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am fwriad Sir Ddinbych a rhoi'r cyfle iddynt gynnal eu hastudiaeth eu hun.

3.3 Teimlwyd y byddai cais Sir Ddinbych i gael tan ddiwedd mis Mai i gwblhau eu hastudiaeth yn rhoi straen ar amserlen y Comisiwn ar gyfer yr arolwg. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Dinbych y byddent yn caniatáu terfyn amser o ganol mis Mai i'r Cyngor gyflwyno eu hadroddiad. Yn y cyfamser byddai'r Comisiwn yn parhau â'r arolwg ffin fel arfer. **Cytunwyd** y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael cyfle i gynnal eu hastudiaeth eu hunain os mai dyna oedd eu dymuniad ac mai canol mis Mai fyddai eu terfyn amser ar gyfer cyflwyno eu hadroddiad hwy hefyd. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn rhoi gwybod i Rita Hale o IPF am fwriadau Cyngor Sir Dinbych.

3.4 Holodd y Dirprwy Gadeirydd ynglyn â'r modd y byddai statws Amcan 1 Llangollen yn cael ei drosglwyddo i Wrecsam ac a fyddai'r gofyniad arian cyfatebol yn gosod baich ar Gyngor Wrecsam. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn gwneud ymholiadau ynglyn â'r modd y byddai statws Amcan 1 Llangollen yn cael ei drosglwyddo i Wrecsam a beth fyddai'r goblygiadau tebygol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

3.5 Holodd Mrs Smith ai cyfrifoldeb y Cynghorau Sir oedd swyddfeydd lleol y cofrestrwyr neu a oeddent yn dod o dan awdurdod Uwcharolygydd y Cofrestrwyr a'r Swyddfa Gartref. Os mai cyfrifoldeb yr olaf oedd hyn, ni fyddai'r mater yn ymwneud â chyfleustra swyddfeydd y cofrestrwyr a godwyd mewn sawl cynrychioliad yn berthnasol i lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cadarnhau pa awdurdod sy'n gyfrifol am swyddfeydd y cofrestrwyr.

3.6 Holodd Mrs Smith a ddylid egluro'r cysylltiadau rhwng yr Ymddiriedolaethau Iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn egluro hyn.

3.7 Holodd y Dirprwy Gadeirydd a fyddai'n bosibl sefydlu i ba raddau yr oedd y Cyngor Sir yn gyfrifol am ariannu Pafiliwn yr Eisteddfod yn Llangollen. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ceisio sefydlu lefel ariannu'r Pafiliwn gan y cyrff sy'n gyfrifol.

3.8 Holodd y Dirprwy Gadeirydd a fyddai'n bosibl canfod y costau gweinyddu cychwynnol tebygol ar gyfer Cynghorau Wrecsam a Sir Ddinbych pe bai Llangollen yn cael ei throsglwyddo i Wrecsam. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio sefydlu costau gweinyddu cychwynnol trosglwyddiad o'r fath.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ceredigion a Sir Benfro yn ardal Llandudoch.

4.1 Nododd Mr Halsall ei fod yn dal i aros am ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion i'w gais am wybodaeth yn ymwneud â'r honiad y byddai'r cynnig i drosglwyddo ardaloedd o Geredigion i Sir Benfro yn arwain at daliadau cymunedol uwch yn Aberteifi.

4.2 Nodwyd fod Cyngor Sir Ceredigion wedi codi'r mater nad yw'r farn gyhoeddus yn ddigon o reswm dros newid ardal llywodraeth leol. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod pob ochr yn teimlo y byddai uno pentref Llandudoch o dan un awdurdod er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Teimlai'r Comisiwn fod cysylltiad rhwng llywodraeth leol effeithiol a hunaniaeth leol ac y dylid ystyried y ffactor hwn.

4.3 **Cytunwyd** y dylid cynhyrchu fframwaith o adroddiad y Cynigion Terfynol tra'n aros am y wybodaeth arall gan Gyngor Sir Ceredigion.

5. Ceisiadau ar gyfer arolygon ffin.

5.1 Cynhaliodd y Comisiwn arolwg ar geisiadau am arolygon ffin. **Cytunwyd** y dylid cadw'r ceisiadau canlynol am arolygon ar y rhestr:

i) Caerdydd a Chasnewydd (Llaneirwg);
ii) Caerdydd a Bro Morgannwg (Grangetown);
iii) Conwy a Gwynedd (Llanfairfechan);
iv) Sir Ddinbych a Chonwy (Llanefydd); a
v) Sir Ddinbych a Chonwy (Foryd Harbour).

Bu mwyafrif y ceisiadau eraill sy'n weddill ar gyfer arolygon ffin yn amodol ar ymchwiliad rhagarweiniol ac ystyriwyd na fyddai cynnal arolwg er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Yr eithriad oedd y cais i gynnal arolwg o'r ffin rhwng Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn ardal Llansannan lle yr oedd yr un a wnaeth yn wreiddiol y cais wedi'i dynnu yn ôl yn ddiweddarach.

5.2 **Cytunwyd**, pan fyddai sefydliad wedi gwneud y cais cychwynnol, y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at y rhai a wnaeth y ceisiadau yn wreiddiol i ofyn os oeddent yn dal i gredu bod angen arolwg o'r ffin.

6. Arolwg o Gydnabyddiaeth a Threuliau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a Chyrff NHS – Papur Ymgynghorol.

6.1 Nodwyd bod y Comisiwn yn gymharol unigryw ymysg CCNC ymgynghorol yn yr ystyr ei fod wedi perfformio tasg ymarferol ac felly bod ganddo fwy yn gyffredinol â

CCNC gweithredol. Teimlwyd bod cydnabyddiaeth y Comisiynwyr yn adlewyrchu'r sefyllfa hon. Teimlai'r Comisiwn mai'r opsiwn mwyaf addas a amlinellwyd yn y papur ymgynghorol fyddai grwpio cyrff yn fandiau yn ôl eu meini prawf allweddol.

6.2 **Cytunwyd** i lunio ymateb i'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan barn y Comisiwn y dylid grwpio CCNC yn fandiau er mwyn eu talu ac y dylid safoni'r treuliau. Caiff yr ymateb drafft ei ystyried yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mai.

7. Unrhyw Fater Arall.

7.1 Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr gan Edwina Hart AC yn cytuno i gwrdd â'r Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu ag Ysgrifennydd dyddiadur Ms Hart a chynnig 5ed Medi (am yn unig), 11eg, 12fed, 14eg, 17eg (nid rhwng 12:00 a 14:00 pm) neu 18fed Medi fel dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod.

7.2 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi derbyn cais gan Adran Llywodraeth Leol New South Wales i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol, yr Anrh Harry Woods, i gwrdd â'r Comisiynwyr yn ystod eu hymweliad â Chaerdydd yn ystod 17eg a 18fed Gorffennaf 2001. Dywedodd y Cadeirydd yn anffodus na fyddai ar gael i gwrdd â'r Gweinidog ar unrhyw un o'r dyddiadau hyn oherwydd ymrwymiadau blaenorol. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Gadeirydd a'r Aelod yn cwrdd â'r Gweinidog ar 17eg Gorffennaf 2001 ac y byddai ymateb i hyn yn cael ei lunio. Gwnaeth y Cadeirydd gais i'w ymddiheuriadau dros fethu â mynychu'r cyfarfod gael eu cyflwyno yn yr ymateb i'r Gweinidog.

7.3 Cadarnhawyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9fed Mai 2001 am 10.30 am.